

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Hydref 2001

Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Adroddiad Crynhoi Ymweliad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â Brwsel

Pwrpas

1. Adrodd prif bwyntiau fy ymweliad â Brwsel ar 25 Mehefin 2001.

Gweithgarwch

2. Gwahoddir i'r Pwyllgor nodi'r papur.

Cefndir

3. Mae erthygl 152 Cytundeb Amsterdam yn cryfhau'n sylweddol ddimensiwn iechyd polisi'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys gorfodaeth wedi ei hatgyfnerthu i sicrhau lefel uchel o amddiffyn iechyd wrth ddiffinio a gweithredu holl bolisiau a gweithgareddau'r Gymuned, ynghyd â gweithgarwch i wella iechyd ac atal clefydau. Bydd gweithgarwch i integreiddio iechyd ar draws feysydd polisi a gweithgarwch ar anghydraddoldebau ym maes iechyd yn nodwedd Rhaglen Iechyd Cyhoeddus newydd y Gymuned.

4. Trefnwyd yr ymweliad a'r rhaglen cyfarfodydd gysylltiedig â chymorth Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel. Daeth yr ymweliad yn sgil fy mhresenoldeb yng nghyngor iechyd yr UE (Rhagfyr 2000) lle siaradais ar ran y DU ar faterion maeth, a Chyngor Iechyd y Byd (Ebrill 2001) fel y Gweinidog a oedd yn cynrychioli'r DU.

5. Sail y rhaglen oedd cyfarfod â Chomisiynydd Iechyd yr UE, David Byrne. Ychwanegwyd ati gan gyfarfodydd â swyddogion o Rwydwaith Asiantaethau Hybu Iechyd Ewrop, Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel, Glenys Kinnock ASE ac Eurig Wynn ASE, Catherine Stihler ASE (Cysylltiad Iechyd Llywodraeth y DU â'r Senedd), UKRep a Chanolfan Ewropeaidd Cymru.

Aelodau Senedd Ewrop

6. Oherwydd bod ymrwymiad blaenorol wedi gorffen yn hwyr, roedd y cyfarfod â Catherine Stihler ASE yn alwad o ran cwrteisi, ond roedd yn ddigonol i sefydlu cysylltiad ar ran y Cynulliad a chofnodi'n datblygiadau iechyd allweddol.

7. Darparodd y cyfarfodydd â Glenys Kinnock ac Eurig Wynn gyfleoedd i adnabod meysydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall. Roedd y rhain yn cynnwys perthnasedd iechyd i feysydd polisi Ewropeaidd e.e. polisi iechyd, amaethyddiaeth (hygyrchedd bwyd ac ansawdd bwyd), a gweithgarwch ehangach i fynd i'r afael â materion megis clefyd y galon, alcohol a phobl ifanc. Mae lle i wella'n cysylltiadau ag Aelodau Seneddol Ewrop Cymru ar faterion iechyd. Gellid cyflawni hyn drwy lif gwybodaeth dwyffordd gwell a chyfranogiad ASEau mewn digwyddiadau yng Nghymru lle bo'n briodol.

Comisiynydd Iechyd yr UE David Byrne

8. Yn anffodus, bu'n rhaid i'r Comisiynydd Byrne ganslo'i gyfarfod oherwydd salwch. Yn lle, cefais drafodaeth ddefnyddiol â Martin Power, ei Chef de Cabinet, a'i gydweithwyr hyn. Amlygodd y drafodaeth berthnasedd agenda iechyd y Gymuned i'r Cynulliad ac i'r gwrthwyneb. Mae Cytundeb Amsterdam yn gorfodi'r Comisiwn i integreiddio iechyd i holl bolisiau a gweithgareddau'r Gymuned; felly, mae'n fater trawsbynciol. Mae nodi dulliau arloesol ac arferion da yn yr aelod wladwriaethau ac adeiladu arnynt o ddiddordeb i'r Comisiynydd. Mae gweithgarwch i integreiddio iechyd ar draws polisi o ddiddordeb arbennig.

9. Ar ben 'prif ffrydio' iechyd mewn polisiau eraill a defnyddio offer megis asesiadau effaith ar iechyd i'r diben hwnnw, bydd y Comisiwn yn gweithredu rhaglen iechyd cyhoeddus newydd. Bydd yn symud o ddull gwaith sy'n seiliedig ar glefydau i un lle mai gwybodaeth a dangosyddion iechyd, ymateb i fygythiadau iechyd (clefydau heintus, gwrthsafiad gwrthficrobaidd ayb), a gweithgarwch i wella iechyd drwy daclo penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd iechyd yw'r prif linyddau. Mae mewnsoed iechyd yn strategaeth datblygu cynaliadwy ehangach y Gymuned yn flaenoriaeth. Ymddengys fod y Comisiwn wedi gwneud peth cynydd ar hyn drwy roi iechyd yn eglur iawn yn ei gynigion.

10. Mae'r ffaith bod y Cynulliad yn datblygu asesiadau effaith ar iechyd a'u cymhwyso i'r Rhaglen Amcan 1 yn hysbys ac fe'i ystyrir yn arloesol. Amlinellais sawl datblygiad arall yng nghyd-destun ein gweithgarwch ehangach i wella iechyd ac i leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd. Roedd diddordeb yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog, y Gronfa Ar Anghydraddoldebau ym maes iechyd, targedau anghydraddoldebau ym maes iechyd, Cynllun y GIG i Gymru a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Anfonwyd manylion ar y rhain.

11. Ar nodyn braidd yn wahanol, cyfyrrdodd y drafodaeth ar y cysylltiadau rhwng ysbytai yn Ewrop a gwledydd sy'n datblygu yng nghyd-destun prosiect AIDS. Esboniais, o ran cyd-ddigwyddiad, fod fy swyddogion yn mapio cysylltiadau Cymru â gwledydd sy'n datblygu o ganlyniad i drafodaeth yr oeddwn wedi ei chael â chynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG. Crybwyllais hefyd Is-Bwyllgor *Cymru*

a'r Byd yng nghyd-destun y cysylltiadau rhwng y Cynulliad, Ewrop a gweddill y byd.

12. Mae posibilrwydd y bydd Cynghorau Iechyd yn amlach yn y dyfodol (ar hyn o bryd mae dau bob blwyddyn), efallai drwy Gyngor Iechyd (anffurfiol) ychwanegol o dan bob Llywyddiaeth. Byddai hyn yn hwyluso rhagor o drafodaeth ar faterion polisi a strategol allweddol. Mae fy swyddogion yn ymgynghori â'r Adran Iechyd ynglyn â'm presenoldeb yn y dyfodol mewn Cynghorau Iechyd, ac â Swyddfa'r Comisiynydd Byrne i archwilio cyfleoedd i ad-drefnu cyfarfod.

Rhwydwaith Asiantaethau Hybu Iechyd Ewrop

13. Mae'r Rhwydwaith yn canolbwyntio ar faterion polisi a strategaeth gan gynnwys hybu gwell iechyd, anghydraddoldebau ym maes iechyd, ac integreiddio iechyd i feysydd polisi eraill. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr yr holl Aelod Wladwriaethau, gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac, yn fwy diweddar, cynrychiolwyr gwledydd sy'n esgyn (accession). Mae'n troi'n un o'r rhwydweithiau UE colynnol ac fe'i gwahoddwyd i gymryd rhan yn Fforwm Iechyd Ewrop, sy'n cael ei sefydlu fel un o fecanweithiau allweddol Rhaglen Iechyd Cyhoeddus newydd yr UE. Mae'r Rhwydwaith yn derbyn cyllid craidd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

14. Mae'r ffaith ein bod yn rhan o'r Rhwydwaith yn hwyluso cysylltiadau gweithio da â swyddogion mewn gwledydd eraill, ac mae'i swyddfa ym Mrwsel yn darparu gwybodaeth a hysbysrwydd cynnar ar faterion iechyd yr UE. Mae'r Rhwydwaith yn darparu sianel gyfathrebu ar gyfer lledaenu gwybodaeth ar ddatblygiadau iechyd ar draws Ewrop. Mae'n eglur bod defnydd da wedi'i wneud o'r sianel hon. Mae swyddogion y Rhwydwaith yn ymwybodol iawn o ddatblygiadau iechyd yng Nghymru ac ystyrir y Cynulliad yn hynod gadarnhaol. Mae'r ffaith inni ddatblygu asesiadau effaith ar iechyd wedi denu sylw mawr ac o ganlyniad, mae'r Rhwydwaith wedi gofyn i swyddogion y Cynulliad gynghori ar yr elfen honno ar ei raglen waith â'r Comisiwn.

15. Mae'n datblygiadau iechyd ehangach a gweithgarwch adfer e.e. Rhoi Cymunedau'n Gyntaf hefyd yn berthnasol i agenda'r UE. Mae swyddogion y Rhwydwaith yn gweld deinamigrwydd yn esblygu mewn rhanbarthau yn Ewrop. Cydnabyddir cyfrifoldebau iechyd gweinyddiaethau datganoledig y DU a, thra bo gan y Rhwydwaith ffocws ar aelod-wladwriaethau, mae cyfranogiad y DU yn cynnwys y Cynulliad ochr yn ochr â chynrychiolwyr yr Alban a Lloegr.

16. Gwnaed ymdrech i sicrhau bod datblygiadau yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiadau prosiect pan-Ewropeaidd ac mewn rhai achosion, e.e. adroddiad y Rhwydwaith sydd i ymddangos ar anghydraddoldebau ym maes iechyd, cyflawnwyd hyn heb yr angen i chwarae rhan uniongyrchol. Credaf fod cyfleoedd i fwydo rhagor o wybodaeth i'r Rhwydwaith ar ddatblygiadau ehangach y Cynulliad, e.e. Adolygiad Dyrannu Adnoddau, Hawliau Lles, a phrosiectau peilot Iechyd. Mae fy swyddogion yn dilyn yr wybodaeth hon i fyny.

Cynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr UE (UKRep)

17. Trefnwyd y cyfarfod hwn at ddibenion briffio cyn y cyfarfod â'r Comisiynydd Byrne. Roedd y drafodaeth yn cwmpasu sawl agwedd ar bolisi iechyd yr UE.

18. Mae angen mewnosod iechyd mewn meysydd polisi eraill o ganlyniad i Gytundeb Amsterdam a golyga hyn fod angen i'r Comisiwn a'r aelod wladwriaethau fod yn fwy cysylltiedig ar draws amrediad o feysydd polisi. Mae hyn yn berthnasol iawn o ystyried ein bod yn ceisio creu dull mwy integredig lle bydd polisiâu a rhaglenni sy'n ychwanegu gwerth i'w gilydd. Gwelir Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Gymuned yn ddatblygiad allweddol a ffordd ymlaen at ddull gwaith mwy integredig. Mae'n cynllun datblygu cynaliadwy hefyd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

19. Unwaith eto, fe'm trawyd gan berthnasedd agenda Ewrop i'r Cynulliad a Chymru. Mae datblygiadau'r dyfodol yn cynnwys rheoli a hysbysebu tybaco, gwaed, meinwe ac organau, gwrthsafiad gwrthficrobaidd, cyffuriau ac alcohol, gweithgarwch i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol ac economaidd iechyd, diogelwch bwyd a maeth, ac iechyd meddwl.

20. Gall datblygiadau'r UE effeithio arnom mewn sawl ffordd. Bydd rhai'n ymwneud â materion nad ydynt wedi eu datganoli, lle y bydd eraill yn effeithio'n uniongyrchol â materion iechyd o dan ein rheolaeth, e.e. dangosyddion iechyd. Mae datblygiadau yng Nghymru'n berthnasol ac o ddiddordeb i'r Gymuned Ewropeaidd a'i sefydliadau. Cred UKRep fod y dimensiwn rhanbarthol - neu weinyddiaethau datganoledig yn y DU - yn darparu cyfle i arddangos datblygiadau a dulliau gwaith gwahanol, ac fe wnaethant bwysleisio diddordeb y Comisiwn.

Canolfan Ewropeaidd Cymru (WEC)

21. Amlygodd Canolfan Ewropeaidd Cymru ei rôl wrth fonitro polisi, eiriolaeth a lobïo, adeiladu perthnasau a'r cymorth y gallai ei gynnig wrth hybu datblygiadau iechyd Cymru. Amlygwyd hefyd gyfleoedd posibl i Gymru dynnu ar gyllid rhaglenni Ewropeaidd, e.e. fframwaith ymchwil a datblygu'r Gymuned Ewropeaidd, y rhaglen Gweithgarwch Iechyd newydd, e-iechyd ayb. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad â Chanolfan Ewropeaidd Cymru ynglyn â nifer o themâu gan gynnwys e-iechyd a thelefeddygaeth.

22. Cyfeiriodd WEC hefyd at ehangu agenda iechyd Ewrop o ganlyniad i Gytundeb Amsterdam, gyda'r symudiad tuag at integreiddio iechyd ar draws feysydd polisi a mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd yn faterion allweddol. Dylai hyn arwain at ragor o gysylltiadau rhwng iechyd a datblygiadau ehangach yr UE megis cynhwysedd cymdeithasol, polisi iechyd ayb.

23. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio â WEC fel un o'n cysylltiadau â'r UE. Rwy'n awyddus i sicrhau, lle bo'n bosibl, bod sefydliadau iechyd a rhai sy'n gysylltiedig ag iechyd, yn chwarae rhan yn rhaglenni Ewropeaidd, drwy fanteisio ar gyfleoedd cyllido addas. Fodd bynnag, roedd y telerau a oedd ynghlwm wrth brosiectau o'r fath - o ran eu gweithredu a'r gofynion am gyllid cyfatebol - yn golygu bod angen taro cydbwysedd gofalus rhwng yr ymdrech a'r ymrwymiad ar y naill law, a'r buddion i'r Cynulliad a Chymru ar y llall.

Casgliad

24. Roedd yr ymweliad hwn yn ddefnyddiol tu hwnt ac fe wnaeth atgyfnerthu fy meddyliau ar berthnasedd agenda iechyd yr UE i'r Cynulliad ac i'r gwrthwyneb.

25. Mae gwybodaeth ar rai o ddatblygiadau iechyd y Cynulliad wedi cofrestru â'r chwaraewyr allweddol yn Ewrop ac yn y Comisiwn. Mae gennym eisoes broffil da ac mae hyn yn galonogol. Tra bydd ein prif bwyslais bob amser ar ddatblygu a gweithredu gweithgarwch i wella iechyd yng Nghymru, ni allwn fforddio colli golwg ar ddatblygiadau polisi'r UE o ystyried potensial eu heffaith arnom. Hefyd, ni ddylem anwybyddu cyfleoedd yn Ewrop inni ddysgu o arferion da ein gilydd.

26. Mae llawer o'r nodau gwella iechyd yn y Gymuned a rhan fwyaf yr Aelod Wladwriaethau yn debyg i'n rhai ni, felly hefyd yr anawsterau sydd ynghlwm wrth eu cyflawni. Mae datblygiadau a phrofiadau'r Cynulliad o ddiddordeb clir i wledydd eraill ac i'r Comisiwn. Golyga hyn y bydd ein datblygiadau iechyd yn parhau i gyfrannu at nod strategol y Cynulliad o godi proffil Cymru yn Ewrop. Gall lledaenu a chyfnewid gwybodaeth yn effeithiol - drwy ddulliau electronig ac eraill - gyflawni llawer, ond o ran rhai materion, bydd cymryd rhan uniongyrchol ar y lefel Ewropeaidd yn dod â buddion ychwanegol i ni.

Jane Hutt

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Pwynt Cyswllt: Ceri Breeze, Adran Strategaeth Iechyd Cyhoeddus. Ffôn: 2082 3214